

CYNGOR CYMUNED LLANLLYFNI

COFNODION CYFARFOD LLAWN A GYNHALIWYD NOS FAWRTH, 10 MEDI 2024 AM 7.00 O'R GLOCH YN Y GANOLFAN TALYSARN.

1. PRESENNOL - Dafydd Thomas (Cad) (Nebo), Justin Davies, Erfyl Williams, Barry Bracegirdle, Ceri Owen (Penygroes), Gwynnaf Roberts, Hefina Roberts, Tesni Glyn (Llanllyfni), Harry Owen, Siân Dafydd, Gareth Jones (Talysarn), Gerallt Hughes (Nantlle), Cyng. Peter Thomas.

YMDDIHEURIADAU – Judith Humphreys, Dylan Herbert (Penygroes), Nigel Williams (Talysarn)

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y cadeirydd Dafydd Thomas a rhoddwyd croeso cynnes i Tesni Glyn i'w chyfarfod cyntaf fel cynghorydd cymuned dros ward Llanllyfni. Hefyd, croesawyd PCSO Katie Baddiley fel person gwadd i roi adroddiad i ni.

2. DATGAN BUDDIANT - Siân Dafydd datgan buddiant ym mhwynt 12 - ceisiadau cynllunio.

3. GWADD - PCSO KATIE BADDILEY - Croesawyd Katie atom heno ac adroddodd ei bod ym Mhenygroes yn llawn amser fel PCSO a bod yna un person arall hefyd yn rhan amser yn yr ardal. Mae'r ardal maent yn ei oruchwylio yn eang iawn o Ddinas Llanwnda i Gyrn Goch i Waunfawr a Rhyd Ddu a hyn yn delio gyda phob math o faterion troseddol. Mae cyffuriau yn broblem yn yr ardal fel ymhob man a hefyd ymddygiad gwrthgymdeithasol, ac mae'r ystod oedran yn mynd yn ieuengach o hyd - plant mor ifanc â 11 i 12 oed yn bihafio yn wrthgymdeithasol. Adroddodd bod yn ddistawach dros wyliau'r ha fond bydd y broblem yn cynyddu pan aiff plant yn nôl i'r ysgol a gweld ei gilydd fwy ayyb. Mae e-sgwteri yn broblem hefyd gyda phobl yn eu defnyddio yn anghyfreithlon. Mae cwynion am blant yn casglu tu allan i'r Neuadd ym Mhenygroes ac yn cicio pêl yn erbyn ceir a thai a hefyd yn ymgasglu yn y safle bws ac yn eu malurio. Mae'r sefyllfaoedd yma yn bethau y mae'r heddlu yn ymdrin â hwy ac yn cadw golwg ar y sefyllfa. Rhoddodd Katie ei manylion cyswllt i bawb a dywedodd y bod modd cysylltu gyda hi ar unrhyw adeg i adrodd neu gael sgwrs am unrhyw fater. Diolchwyd i Katie am ei hamser ac am ei gwaith yn yr ardal. Bu iddi adael y cyfarfod.

4. CYWIRDEB COFNODION CYFARFOD 9 GORFFENNAF 2024 - cynigwyd ac eiliwyd bod y cofnodion yn gywir.

5. MATERION YN CODI O'R COFNODION AC YMATEBION CYNGOR GWYNEDD - Bin sbwriel Mynwent Macpela - y bin heb gyrraedd eto, y clerc i holi pryd fydd hyn yn digwydd.

6. ADRODDIADAU GAN Y CYNGHORWYR SIR - diolchwyd i'r Cyng. Thomas am ei adroddiad yr oedd pawb wedi ei dderbyn ymlaen llaw i'r cyfarfod. Lôn Tŷ Gwyn, Llanllyfni - roedd gwaith i fod i gael ei wneud ar y ffordd yma cyn 4 Medi ond yn anffodus heb ei gario allan - Cyng. Thomas am ddilyn fyny ar hyn. Pant yn Lôn Ddŵr wedi ei lenwi ond wedi dechrau suddo unwaith eto. Barrier maes parcio Canolfan Talysarn - yn anffodus rhywun wedi gyrru i mewn i'r barrier a'i falu sy'n golygu nad oes modd ei gau bellach - adrodd ei fod yn cael ei drwsio'r wythnos yma. Sefyllfa parcio Dorothea - hyn wedi bod yn broblem fawr dros yr haf a llanast yn cael ei adael ymhob man. Perchnogion y chwarel yn dod i'r cyfarfod mis Hydref felly bydd yn gyfle i siarad gyda hwy am hyn. Cynigwyd i'r clerc yrru llythyr iddynt ymlaen llaw am y mater ac i'w hysbysu y bydd yn cael ei drafod gyda nhw yn y cyfarfod nesaf. Diolchwyd i Cyng. Peter Thomas am ei waith.

7. CYFARFODYDD IS-BWYLLGORAU - ni fu i gyfarfod cael ei gynnal.

8. TAFLEN ARIANNOL A CHYLLID - adrodd nad oedd llawer wedi mynd allan o'r cyfrif a bod y peraset wedi ei dderbyn erbyn hyn hefyd. Lwfans y cynghorwyr eisiau ei dalu allan ar ôl i'r clerc dderbyn y ffurflenni yn nôl gan bawb.

9. LLWYBRAU A MYNWENTYDD - Cae Macpela - yn dilyn rhoi hysbyseb allan am dendr y cae derbyniwyd un pris. Trafodwyd a phenderfynwyd yn unfrydol i dderbyn y pris hwn. Y clerc i gysylltu gyda'r ymgeisydd i adrodd hyn ac i ddweud y bydd y contract yn dechrau ar 1 Hydref am 11mis. **Mynwent Macpela** - y contractwyr torri gwair wedi gofyn a oes angen torri'r gwair bob ochr i'r ffordd newydd yn y fynwent - y pris ganddynt yn £180 - trafodwyd, cynigwyd, eiliwyd a phenderfynwyd derbyn y pris hwn. Twll wedi ymddangos yn y fynwent lle yn croesi o'r darn newydd i'r hen - gofyn i'r contractwyr fynd yno i'w lenwi. **Mynwent Gorffwysfa** - bydd rhes newydd yn cael ei ddechrau pan fydd yr angladd nesaf yn digwydd - teimlad bod yn amser nawr ddechrau meddwl am gael darn o dir i ehangu'r fynwent.. Cynigwyd i gael cyfarfod is-bwyllgor i drafod hyn ac yn y cyfamser y clerc i edrych ar ffigyrau faint o feddi sydd yn cael eu hagor mewn Cafwyd y cofnodion yn rhai cywir

Arwyddwyd gan Gadeirydd y Cyngor - _____ Dyddiad - _____

blwyddyn faint o le sydd ar ôl a faint o le sydd ei angen yn y rhan newydd. Trafod yng nghyfarfod mis Hydref am ddyddiad i gynnal is-bwyllgor i drafod ymhellach.

10. MATERION PENTREFI - Penygroes - twll yn y ffordd yn Lôn yr Eglwys sydd yn mynd lawr Stryd yr Wyddfa yn beryglus ac angen sylw. Cerb yn rhydd ar y palmant tu allan i'r Co-op ac angen sylw brys. Angen holi paham nad yw'r chwyn yn Nhrem yr Wyddfa wedi ei chwistrellu. Cae Capel Bach - angen cysylltu gyda Grŵp Cynefin ynglŷn â bod coed yn tyfu allan i'r palmant ac angen eu torri. **Talysarn** - Maes parcio'r ysgol - adroddiad bod llechi wedi disgyn o'r wal i'r ffordd. Bin sbwriel tu allan i'r ganolfan wedi ei orchuddio mewn graffiti anweddus ac angen ei lanhau. **Nantlle** - dim byd yn codi. **Llanllyfni** - llwybr yr hen lôn rhwng Brynteg a Graianfryn angen ei dorri. Adroddiad o first dŵr ar Ffordd Rhedyw ac angen ei sortio. Drain yn tyfu allan o wal i'r palmant rhwng Melin Gerrig a Maes Castell ac angen ei dorri gan fod cerddwyr yn gorfod mynd ar y ffordd i'w osgoi. Ochr y ffordd ar Lôn Ddŵr a Lôn Tyddyn Agnes angen eu torri a 'ragwort' ymhob man. **Nebo** - cwch a threlar wedi ei barcio ar y ffriodd yn Nebo ers peth amser gyda drain a chwyn yn tyfu o'i chwmpas yn flêr erbyn hyn - angen cael ei symud. Blwch ffôn - cyflwr y blwch yn beryglus erbyn hyn, er mai'r Cyngor Cymuned sydd ei berchen adroddwyd eu bod wedi cymryd y berchnogaeth ar y cytundeb mai Pwyllgor Ardal Nebo oedd yn edrych ar ei ôl. Gofynnwyd am ganiatâd y cyngor i Bwyllgor Ardal Nebo gario allan gwaith ar y blwch - cynigwyd ac eilwyd i hyn barhau.

11. TIR CWTIN - (bu i Justin Davies adael y cyfarfod). Adroddwyd bod drafft o'r brydles wedi ei dderbyn heddiw ond gan ei bod yn 33 tudalen o hir nid oedd disgwyl i neb fedru edrych drosti a'i thrafod yn y cyfarfod heno. Cynigwyd i gynnal is-bwyllgor yn arbennig i edrych dros y drafft. Eilwyd y cynnig a phenderfynwyd ar ddyddiad cyn y cyfarfod nesaf i fynd trwyddi.

12. CEISIADAU CYNLLUNIO - (bu i Siân Dafydd adael y cyfarfod)

- C24/0668/22/DT – 9 Bryncelyn, Talysarn – dymchwel estyniad cefn presennol a chodi estyniad deulawr - DIM GWRTHWYNEBIAD.

13. GOHEBIAETH - roedd pawb wedi derbyn copiâu o'r ohebiaeth a oedd ar yr agenda ac nid oedd dim yn codi ohonynt.

14. MATERION ARIANNOL - pasiwyd i dalu'r isod

- Cyngor Gwynedd – Archwiliad mewnol = £552.00 (cynnwys TAW)
- Nia Jones – Ffôn a rhyngrwyd = £25.00
- Nia Jones – clo giât Mynwent Macpela = £34.00 (cynnwys TAW)

Diolchwyd i bawb am eu presenoldeb a bydd y cyfarfod nesaf i'w gynnal nos Fawrth, 8 Hydref 2024 am 7.00 o'r gloch yn y Ganolfan Talysarn.

Cafwyd y cofnodion yn rhai cywir

Arwyddwyd gan Gadeirydd y Cyngor - _____ Dyddiad - _____